Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 368 (Cymru) – 30 Ebrill 2024**

## Etholiadau mis Mai 2024: nodyn atgoffa o’r canllawiau a’r cymorth sydd ar gael drwy gydol wythnos yr etholiad

Ym Mwletin 362 rhoesom fanylion ein gwasanaeth cyngor dros y ffôn y tu allan i oriau i chi er mwyn ymdrin ag ymholiadau gweinyddol brys yn y cyfnod cyn ac yn syth ar ôl etholiadau mis Mai 2024. Mae’r canlynol yn eich atgoffa sut y gallwch gysylltu â ni ar y diwrnod pleidleisio a thros y dyddiau dilynol:

**Diwrnod pleidleisio (dydd Iau 2 Mai)** – Rhwng 6:30am a 8:30am – ffoniwch 07824 464350. Rhwng 8:30am a 5:30pm – ffoniwch 0333 103 1929. O 5:30pm ymlaen – ffoniwch 07824 464350. Caiff y rhif hwn ei staffio drwy gydol y nos ar gyfer ymholiadau brys.

**Dydd Gwener 3 Mai** – Rhwng 8:30am a 5:30pm – ffoniwch 0333 103 1929. Ar ôl 5:30pm – ffoniwch 07824 464350 ar gyfer ymholiadau brys.

**Dydd Sadwrn 4 Mai i ddydd Llun 6 Mai** – Rhwng 10:00am a 4:00pm – ffoniwch 07824 464350 ar gyfer ymholiadau brys.

Roeddem hefyd am achub ar y cyfle hwn i ddymuno pob lwc i chi i gyd ar gyfer yr wythnos nesaf, ac i ddiolch i chi a'ch staff am eich ymdrechion wrth baratoi ar gyfer yr etholiad. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r swm sylweddol o waith yr ydych eisoes wedi'i wneud wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau a gynhelir ar 2 Mai. Mae'r gwaith pwysig a wnewch yn parhau i fod yn hanfodol i sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu cymryd rhan yn ddiogel ac yn hyderus, a bod y pleidleisiau hynny yn cael eu cyfrif mewn ffordd sy'n sicrhau canlyniadau sy'n gywir ac y gellir ymddiried ynddynt.

Comisiwn Etholiadol Cymru
Llawr 3, James William House
9 Museum Place, Caerdydd
CF10 3BD
Ffôn: 0333 103 1929

infowales@electoralcommission.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2024: nodyn atgoffa o’r canllawiau a’r cymorth sydd ar gael drwy gydol wythnos yr etholiad**

Nodyn i'ch atgoffa o sut i gysylltu â'r Comisiwn i gael canllawiau a chymorth drwy gydol wythnos yr etholiad.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy anfon e-bost at**

**infowales@electoralcommission.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a’ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd**

© Y Comisiwn Etholiadol 2024

**(https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**